# Pecyn Croeso TAR Daearyddiaeth, Hanes ac Addysg Grefyddol: 2023-24

Helo bawb,

Llongyfarchiadau ar ennill eich lle ar y rhaglen. Croeso cynnes iawn i raglen TAR Dyniaethau AoLE.

Bydd yn flwyddyn brysur, gyffrous a heriol. Bydd y tasgau a nodir isod yn eich helpu i baratoi ar gyfer y cwrs. Cwblhewch y ffurflen erbyn diwedd mis Awst.

**1) CADARNHAU LLE**

Pan fyddwch yn derbyn y pecyn hwn, ebostiwch eich tiwtoriaid pwnc (Daearyddiaeth – RECrooks-Williams@cardiffmet.ac.uk Hanes – mpwilliams2@cardiffmet.ac.uk neu Addysg Grefyddol – pwebber@cardiffmet.ac.uk)

Bydd hyn yn cadarnhau y byddwch yn dechrau gyda ni ym mis Medi.

**2) DARLLEN AR DRAWS Y MAES PROFIAD DYSGU**

Fel athrawon dyniaethau mae'n bwysig bod gennym wybodaeth weithiol dda o bob un o'r pynciau y gellir gofyn i chi gyfrannu atynt yn ystod eich gyrfa addysgu. Gyda hyn mewn golwg, treuliwch beth amser yn darllen gwerslyfr Cyfnod Allweddol Tri ar gyfer pob un o'r tri phwnc dyniaethau.

Y nod yw rhoi hwb i'ch gwybodaeth bynciol cyn i chi fynd i'r ystafell ddosbarth, felly ceisiwch ddarllen mwy nag un llyfr ar gyfer pob pwnc dyniaethau os yn bosibl.

**3) ADDYSGU TGAU A SAFON UWCH**

Hyd yn oed os mai dim ond yn ddiweddar yr ydych wedi gadael addysg ysgol uwchradd, mae'n debyg y byddwch yn gweld bod y cwricwlwm a'r dulliau asesu wedi newid. Ewch i wefan arholiadau CBAC (www.cbac.co.uk) a gwnewch eich hun yn gyfarwydd â'ch arholiadau pwnc ar gyfer TGAU ac UG/Safon Uwch. Mae gan y wefan gasgliad eang o adnoddau gan gynnwys manylebau pwnc, papurau'r gorffennol, cynlluniau marcio ac atebion enghreifftiol a fydd yn amhrisiadwy pan fyddwch yn dechrau addysgu. Dylech hefyd ddarllen y gwerslyfrau a argymhellir gan y bwrdd arholi gan ei bod yn debygol iawn y bydd y rhain yn cael eu defnyddio yn eich ysgolion.

**4) DARLLEN AM ADDYSGU**

Isod mae tri thestun y byddem yn eu hargymell i chi ddarllen rhannau o cyn mis Hydref

- Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2016) *Learning to teach in the secondary school*, 7th edn. London: Routledge.

- Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2017) Research Methods in Education. 8th edn. Abingdon: Routledge.

- Dymoke, S. and Harrison, J. (2012) Reflective Teaching and Learning in the Secondary School, 2nd edn. London: Sage

- Hattie, J. (2013) Visible Learning and the Science of How We Learn. Abington: Routledge.

- Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, 3rd edn. Cheltenham: Nelson Thornes.

- Muijs, D. and Reynolds, D. (2010) *Effective teaching: evidence and practice*, 3rd edn. London: Sage.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan,
Mark, Paula a Rhian